

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cylchfan Coryton, Caerdydd i
Gylchfan Abercynon, Rhondda
Cynon Taf) (Dileu Cyfyngiadau a
Therfyn Cyflymder 40 mya) 202-

The A470 Trunk Road (Coryton
Roundabout, Cardiff to Abercynon
Roundabout, Rhondda Cynon Taf)
(Derestriction and 40 mph Speed
Limit) Order 202-

Gwnaed

**** 2025

Yn dod i rym

**** 2025

Made

**** 2025

Coming into force

**** 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2), 83(1), 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adrannau 83(1) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers given public notice of their intention to make this Order in accordance with sections 83(1) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 and have consulted with the Chief Officer of South Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Dileu Cyfyngiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 202- a daw i rym ar ***** 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Coryton Roundabout, Cardiff to Abercynon Roundabout, Rhondda Cynon Taf) (Derestriction and 40 mph Speed Limit) Order 202- and it comes into force on ***** 2025.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1990/1656.

(1) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). Section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1990/1656.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Llangurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Dileu cyfyngiadau

3. Bydd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Cyfyngiad

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road.

Derestriction

3. The lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Restriction

4. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

**** 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

**** 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 **Dileu cyfyngiadau**

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gylchfan Coryton, Caerdydd hyd at bwynt 490 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Pontypridd.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 895 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Coryton hyd at ei thrwyniad â phrif gerbyttffordd tua'r gogledd yr A470.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i thrwyniad â phrif gerbyttffordd tua'r gogledd yr A470 hyd at bwynt 174 o fetrau i'r de o'r trwyniad hwnnw.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Abercynon hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 555 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad,

SCHEDULE 1 **Derestriction**

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the physical nosing of the northbound entry slip road at Coryton Roundabout, Cardiff to a point 490 metres south of the nosing of the northbound exit slip road at Upper Boat Interchange, Pontypridd.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 895 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd to a point 350 metres south of its junction with the main circulatory carriageway Abercynon Roundabout.

The length of the northbound entry slip road at Coryton Interchange that extends from a point 120 metres north of its junction with the circulatory carriageway of Coryton Roundabout to its nosing with the main A470 northbound carriageway.

The entire length of the northbound exit slip road at Taffs Well Interchange.

The length of the northbound entry slip road at Taffs Well Interchange that extends from its nosing with the main A470 northbound carriageway to a point 174 metres south of that nosing.

The entire lengths of the northbound exit and entry slip roads at Nantgarw Interchange.

The entire length of the northbound exit slip road at Navigation Junction, Navigation Park, Abercynon.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 35 metres south of its junction with the main circulatory carriageway of Abercynon Roundabout to a point 450 metres north of the nosing of the southbound exit slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 555 metres south of the nosing of the southbound entry slip road at Upper

Pontypridd hyd at bwynt 740 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4054 Cardiff Road hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Boat Interchange, Pontypridd to a point 740 metres north of the nosing of the southbound exit slip road at Taffs Well Interchange.

The entire length of the southbound entry slip road at Navigation Junction, Navigation Park, Abercynon.

The entire lengths of the southbound exit and entry slip roads at Nantgarw Interchange.

SCHEDULE 2
40 mph speed limit

The length of the northbound entry slip road at Taffs Well Interchange that extends from its junction with the A4054 Cardiff Road to a point 140 metres north of that junction.